WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 116A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Statws yr archwiliad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 4

Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad 5

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 12

Annibyniaeth a gwrthrychedd 12

Atodiadau

Atodiad 1 - Llythyr Sylwadau 13

Atodiad 2 - adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 16

Atodiad 3 – crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt 18

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

3 Y lefelau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau yn rhai materol yw £0.846 miliwn ar gyfer yr Awdurdod a £0.168 miliwn ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod, ar gyfer 2016-17, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Mr Ken Finch, Trysorydd.

7 Cawsom y datganiadau ariannol drafft wedi'u llofnodi ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2017 ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Fel rhan o gamau olaf yr archwiliad, byddwch yn darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

10 Amlinellwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd â'r rheolwyr ond sy'n dal i fod heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi nodi'r rhesymau dros hynny.

### Dyw colled o £511,00, o ganlyniad i ailbrisio hen Orsaf Dân Wrecsam, heb gael ei drin yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol .

11 Mewn sefyllfa pan nad yw ased gweithredol yn cael ei ddefnyddio mwyach ac yn cael ei ailddosbarthu fel ased a ddelir i'w werthu, mae'r Côd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod y gwerth yn cael ei addasu i adlewyrchu'r lleiaf o'r ddau; gwerth yr ased pan yn weithredol neu enillion gwerthiant net sy'n cael eu rhagweld. Mae wedyn yn ofynnol bod unrhyw leihad neu golled o ganlyniad i ailbrisio ar gyfer unrhyw ostyngiad i'r gwerth yn cael ei gydnabod yn yr adran Arian dros ben neu Ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau (hyd yn oed pan mae balans ar gronfa ailbrisio wrth gefn yr ased).

12 Yn achos hen Orsaf Dân Wrecsam, yr holl ostyngiad yn dilyn ailbrisio i'r gwerth lleiaf o werth gweithredol a'r enillion gwerthiant net oedd yn cael eu rhagweld oedd £897,000. Yn y cyfrifon, dim ond £386,000 o'r golled yma sydd wedi cael ei chydnabod yn yr Arian dros ben neu Ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau, fe wnaeth y £511,000 oedd yn weddill gael ei ddileu yn erbyn y gronfa ailbrisio wrth gefn. Fel canlyniad mae'r Arian dros ben neu Ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau wedi cael ei dan ddatgan o £511,000 ac mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn wedi cael ei dan ddatgan o'r un swm. (Nodwch, tra bod yn anghywir, byddai'r trafodion hyn ddim yn effeithio ar sail ariannu'r Awdurdod oherwydd byddent yn cael eu haddasu fel rhan o'r addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliad).

### Mae Rhwymedigaethau Pensiwn wedi'u tan ddatgan o £574,000 gan fod yr Actwari wedi cyfrif am daliadau pensiwn yn ymwneud ag Ebrill 2017 yn ei amcangyfrif o'r rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2017.

13 Yn y Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, nodwyd fod y budd-daliadau y cyfrifwyd amdanynt yng nghyfrifon 2016-17 mewn gwirionedd yn ymwneud â 1 Mai 2016 i 30 Ebrill 2017 yn lle 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017, fel sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer.

14 Er bod y trafodion perthnasol sy'n ymwneud â chywiro'r cam-drin hwn wedi cael eu haddasu yn y cyfrifon, ni chywirwyd yr effaith ar ddatgeliadau pensiwn IAS 19.

15 Gan nad oedd yr Actwari yn gwerthfawrogi bod y data ariannol yr oedd yn ei ddefnyddio yn cynnwys buddion a dalwyd mewn perthynas ag Ebrill 2017, bydd cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn wedi cael ei dan ddatgan gan y swm hwn.

### Dyw stoc sydd wedi ei brisio yn £151,000 heb gael ei gydnabod fel ased ar y fantolen ar ddiwedd y flwyddyn

16 Yn Rhagfyr 2013, fe wnaeth yr Awdurdod brynu 45,000 o larymau mwg a ariennir gan arian grant. Ar Fawrth 31ain 2017, roedd oddeutu 22,000 o rhain dal mewn stoc ond heb gael eu cydnabod fel ased ar y fantolen (nac mewn cyfrifon ariannol blaenorol). Er hyn, yn fuan yn 2016, fe wnaeth yr Awdurdod ddod ar wybod bod nam ar y larymau mwg ac maent nawr yn mynd ar drywydd iawndal gan y cyflenwr. Wedi dweud hyn, dylai bod ystyriaeth wedi cael ei roi, yn y cyfrifon, i’r angen o leihau gwerth y stoc.

17 Mae’r methiant i gydnabod y stoc ac o ganlyniad i hyn y diffyg ystyriaeth o leihad, yn ganlyniad i driniaeth yr Awdurdod o arian grant y tu allan i’r gweithgareddau ariannol craidd yr Awdurdod, mae sylw wedi cael ei dynnu at hyn mewn man arall yn ystod yr archwiliad.

### Mae budd-daliadau a’r grant ychwanegol a dderbynnir yng Nghyfrif y Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân wedi’u cam-ddatganu o £21,000.

18 Fel y nodir ym mharagraff 13, mae’r Gronfa Bensiwn wedi cyfrifo yn anghywir am fudd-daliadau a oedd yn ymwneud â’r cyfnod Mai 2016 i Ebrill 2017 yn hytrach nag Ebrill 2016 hyd at Fawrth 2017. Felly, mae’r sefyllfa net o fudd-daliadau a dalwyd llai'r cyfraniadau a dderbyniwyd wedi’i gor-ddatgan o £21,000, sef y gwahaniaeth rhwng y buddion sy’n daladwy ym mis Ebrill 2016 ac Ebrill 2017. Gan fod y sefyllfa net yna yn cael ei ariannu gan y Grant Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae hefyd yn wir fod yr incwm yn cael ei or-ddatgan o £21,000.

## Camddatganiadau a gywirwyd

19 Mae camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

20 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

## Mae gennym rai pryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol

21 Mae gennym y pryderon canlynol ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol:

### Roedd y datganiadau ariannol drafft o ansawdd gwael ac ni chynhaliwyd adolygiad ansawdd digonol ohonynt. Nid oedd perchenogaeth gyfun ddigonol drostynt ychwaith, yn ôl pob tebyg, ac o ganlyniad cawsant eu hailddatgan yn sylweddol

22 Roedd y datganiadau ariannol drafft o ansawdd gwael ac yn cynnwys nifer o wallau ac anghysondebau prima facie yn ogystal â rhai gwallau mwy sylfaenol. Ymddengys yn glir i ni na chynhaliwyd adolygiad ansawdd cadarn ohonynt. Pe cynhaliwyd adolygiad cadarn ohonynt, gellid bod wedi ymdrin â llawer o'r diwygiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio, a fyddai wedi osgoi gwaith archwilio diangen. Cyflwynwyd y cyfrifon cyn y terfyn amser statudol, felly byddai'r amserlen wedi caniatáu ar gyfer hyn.

23 Mewn sawl achos, nid oedd y papurau gwaith yn hunanesboniadol nac yn cynnwys digon o fanylion i ddeall sut y lluniwyd y cyfrifon. O ganlyniad, bu'n rhaid cynnal llawer o ymholiadau archwilio er mwyn cael yr esboniad angenrheidiol a deall y cofnodion cyfrifyddu sylfaenol. Nododd hyn hefyd fod nifer o lwybrau byr wedi'u cymryd gan arwain at drafodion 'net' yn hytrach na chymhwyso triniaeth gyfrifyddu lawn a chywir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol.

24 At hynny, mae angen cydnabod cyfrifoldeb cyfun yr Awdurdod dros baratoi'r cyfrifon ac ymateb i'r broses archwilio. Gwnaethom nodi nifer o achosion lle bu diffyg cyfathrebu rhwng staff cyllid o fewn yr Awdurdod ei hun a staff cyllid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Conwy). O ganlyniad, lluniwyd y cyfrifon gan ddefnyddio gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, a arweiniodd at yr angen i gynnal cryn dipyn o waith ychwanegol wrth baratoi'r cyfrifon ac a arweiniodd at nifer o addasiadau sylweddol i'r datganiadau ariannol drafft.

25 Hefyd, lle roedd angen esboniadau a gwybodaeth ar gyfer ein hymholiadau archwilio o ffynonellau y tu mewn i'r Awdurdod, yn aml cafwyd oedi sylweddol. Cyfrannodd hyn at bwysau ychwanegol a gwaith ychwanegol i staff Conwy ac i ni wrth gwblhau'r archwiliad yn unol â'r terfynau amser gofynnol.

26 O ganlyniad i'r ffactorau cyfrannol hyn, bu'n rhaid ailddatgan y cyfrifon drafft yn sylweddol.

## Er gwaethaf ein hargymhelliad yn 2016, nid yw'r gofrestr asedau yn dal gwybodaeth ddigon manwl am yr asedau unigol a ddosberthir fel cyfarpar gweithredol a TG o hyd, ac nid yw'r broses o roi cyfrif am warediadau yn ddigon cadarn ychwaith

27 Y llynedd, gwnaethom nodi nad oedd y gofrestr asedau ariannol yn cynnwys gwybodaeth ddigon manwl mewn perthynas â chyfarpar gweithredol a TG i nodi asedau unigol. O ganlyniad, gwnaethom argymell y dylid diwygio'r gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu nodi'n hawdd a sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol.

28 Ni chynhaliwyd yr ymarfer hwn ac felly, erys yn anodd penderfynu a yw'r asedau y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn y datganiadau ariannol yn dal i fodoli o fewn yr Awdurdod.

29 Cynhaliwyd gwaith i nodi'r asedau sy'n gysylltiedig â sampl o gofnodion y gofrestr asedau ond nid oedd hyn yn syml a bu'n broses hirfaith iawn, fel y llynedd.

30 Nododd ein gwaith fod asedau wedi'u cynnwys ar y gofrestr asedau o hyd a oedd wedi'u gwerthu neu yr oedd yr Awdurdod wedi cael gwared arnynt. Roedd hyn yn cynnwys asedau nad oeddent yn bodoli mwyach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac a nodwyd gennym yn ein Hadroddiad ar Ddatganiadau Ariannol 2015-16. Yn ogystal â chofnodi'r asedau hyn yn anghywir o hyd, yr oedd ganddynt werth llyfr net o £19,000 ar 31 Mawrth 2017, mae'r methiant i'w dileu oddi ar y gofrestr asedau wedi arwain at dâl dibrisiant anghywir o £19,000. Yn ogystal â'r asedau hyn, rydym wedi nodi asedau pellach (â gwerth llyfr net o £15,400) a waredwyd cyn diwedd y flwyddyn. Felly, nid oedd unrhyw welliannau i'r broses waredu yn effeithiol.

### Dosbarthwyd yr holl gyfarpar TG, sy'n cynnwys asedau diriaethol ac anniriaethol, fel cyfarpar diriaethol gan arwain at wall dosbarthu

31 Wrth brofi ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn ystod y flwyddyn, gwnaethom nodi bod rhai asedau TG wedi'u dosbarthu'n anghywir fel asedau diriaethol pan oeddent, mewn gwirionedd, yn asedau anniriaethol trwyddedau meddalwedd. Roedd hefyd yn glir fod y driniaeth gyfrifyddu hon wedi'i chymhwyso yn y gorffennol gan mai £dim oedd gwerth cario'r asedau anniriaethol yn y datganiadau drafft.

32 Cynhaliodd yr Awdurdod ymarfer i nodi'r eitemau mwy y dylid bod wedi'u dosbarthu fel asedau anniriaethol a gwnaed addasiad i'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn fodlon bod y rhaniad rhwng asedau diriaethol ac anniriaethol wedi'i ddatgan yn berthnasol, ond mae angen cynnal adolygiad manwl er mwyn sicrhau bod yr holl asedau wedi'u dosbarthu a'u datgelu ar fantolen yr Awdurdod.

## Nid oedd gwelliannau i roi cyfrif am incwm grant a'i wariant cysylltiedig yn ddigonol ac nid oeddent yn sicrhau y rhoddwyd cyfrif am yr holl weithgarwch yn y prif ddatganiadau.

33 Y llynedd, gwnaethom nodi nad oedd yr Awdurdod yn rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o'i incwm grant a'r gwariant cysylltiedig yn y prif ddatganiadau ariannol, a oedd yn sylfaenol anghywir. O ganlyniad, gwnaed addasiadau perthnasol i'r cyfrifon ac argymhellwyd y dylai'r Awdurdod roi cyfrif priodol amdanynt o 2016-17 ymlaen.

34 Er bod y datganiadau ariannol drafft yn cynnwys cofnodion yn ymwneud ag incwm grant a gwariant, nid yw'r dull cyfrifyddu ar gyfer grantiau yn cynrychioli arfer da gan fod y gweithgarwch yn ystod y flwyddyn wedi'i nodi mewn cyfrifon dal ar y fantolen yn hytrach na chael eu codio i'r codau refeniw priodol. Wedyn, cynhaliwyd ymarfer ar ddiwedd y flwyddyn i ychwanegu'r incwm gros a'r gwariant gros i'r datganiad incwm a gwariant.

35 Fodd bynnag, gwnaethom nodi na chysonwyd y trafodion yn y cyfrifon sy'n cynnwys y grantiau i'r symiau grant sy'n ddyledus ac y hepgorwyd nifer o groniadau ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hefyd yn glir fod hyn yn enghraifft lle roedd cyfathrebu gwael rhwng staff cyllid yr Awdurdod a staff cyllid Conwy wedi arwain yn uniongyrchol at drefniadau cyfrifyddu annigonol gan arwain at wallau perthnasol yn y cyfrifon.

## Ni chynhwyswyd y trafodion i roi cyfrif am rwymedigaethau pensiwn yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 Buddiannau Cyflogeion (IAS19) yn y cyfriflyfr ariannol

36 Mae IAS19 yn nodi'r driniaeth gyfrifyddu a'r trefniadau datgelu ar gyfer buddiannau cyflogeion, sy'n cynnwys cydnabod cyfran yr Awdurdod o asedau a rhwymedigaethau'r cynlluniau pensiwn perthnasol.

37 Er bod y datganiadau ariannol yn briodol yn cynnwys y trafodion hyn, er iddynt gael eu diwygio ar ôl eu harchwilio, ni chawsant eu cofnodi yng nghyfriflyfr ariannol yr Awdurdod.

38 Dylai'r cyfriflyfr ariannol fod yn gofnod cynhwysfawr o holl drafodion ariannol yr Awdurdod a dylai fod yn gyson â'r datganiadau ariannol. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi nodweddion ansoddol sylfaenol, gan gynnwys cyflawnder a chynrychiolaeth ffyddlon ac nid yw cofnodi trafodion cyfrifyddu y tu allan i'r cyfriflyfr ariannol yn gydnaws â'r egwyddorion hyn.

39 Er ein bod wedi cael sicrwydd digonol fod datgeliadau IAS19 yn gywir ac yn gyflawn, nid yw'n briodol parhau i eithrio'r trafodion hyn o'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol.

### Cawsom anawsterau wrth gynnal yr archwiliad ac mae hyn yn peri pryder penodol gan fod yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r cyfrifon yn sylweddol fyrrach o 2018-19

40 O ganlyniad i'r amrywiol faterion a nodwyd uchod, bu'n rhaid gwneud cryn dipyn o waith ychwanegol er mwyn cael sicrwydd digonol bod y cyfrifon wedi'u datgan yn berthnasol ac er mwyn archwilio ac olrhain y nifer sylweddol o addasiadau hyd at y datganiadau terfynol.

41 Mae paratoi'r datganiadau ariannol blynyddol yn brosiect cymhleth sy'n cynnwys llawer o ryngddibyniaethau ac mae angen trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli'r prosiect sy'n sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn gwbl ymrwymedig. Mae angen i'r Awdurdod roi ystyriaeth bellach i'r ffordd y caiff y broses o lunio'r cyfrifon a'u harchwilio ei rheoli er mwyn sicrhau gwelliant ac er mwyn sicrhau nad oes perygl y bydd yn methu â bodloni'r terfynau amser statudol. Mae hyn yn berthnasol iawn gan fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i lunio a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn gynt.

42 Ar gyfer Awdurdodau Tân, mae'r amserlen ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol paratoi'r cyfrifon erbyn 31 Mai o 2018-19 (un mis yn llai na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd) a'u cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf (deufis yn llai na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd). Bydd hyn yn heriol i bob Awdurdod Tân ond mae'n pwysleisio ymhellach yr angen i sicrhau'r gwelliannau y cyfeirir atynt uchod, gan mai dim ond un flwyddyn ariannol arall (2017-2018) sydd cyn cyflwyno'r amserlen ddiwygiedig.

43 Ar ôl cwblhau'r archwiliad, byddwn yn cynnal sesiwn ddysgu ôl-prosiect ar y cyd gyda swyddogion er mwyn helpu i nodi'r gwelliannau y mae angen eu gwneud.

## Mae yna ddau fater sy'n berthnasol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano

### Roedd nifer o ffurflenni datgan budd heb gael eu dychwelyd pan baratowyd y cyfrifon drafft gan arwain at baratoi'r cyfrifon yn defnyddio gwybodaeth anghyflawn

44 Mae Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol bod partïon cysylltiedig yn cwblhau ffurflenni datgan budd. Er mwyn galluogi llunio'r nodyn hwn, mae angen i aelodau ac unrhyw swyddogion perthnasol ddatgan buddiannau sydd â pherthynas ariannol gyda'r Awdurdod. Yn anffodus, roedd wyth ffurflenni datgan heb eu dychwelyd pan baratowyd y cyfrifon ac felly roedd rhaid gofyn am rhain yn ystod y ffenestr archwilio ac mae dau dal heb eu dychwelyd. Mae nodyn y Partïon Cysylltiedig wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r hebgoriadau hyn.

45 Er mwyn sicrhau bod y ffurflenni datgan budd wedi'w cwblhau a'u datgan yn faterol, mae hi'n hanfodol eu bod yn cael eu dychwelyd pan yn ofynnol.

46 Pan yn dychwelyd y ffurflen, mae hi’n ofynnol ar hyn o bryd i’r ymatebydd ddatgan os ydy nhw (neu aelod perthnasol o’r teulu), mewn unrhyw fodd, wedi cael trafodion ariannol gyda’r Awdurdod. Mae gofyn felly bod gan unigolion ymwybyddiaeth o’r holl gyrff mae’r Awdurdod yn ymwneud â nhw, sydd yn afrealistig ac yn cynyddu’r risg bod datgeliadau priodol yn cael eu hepgor. Byddai’n fwy priodol i ffurflenni datgelu ofyn am wybodaeth yn ymwneud â buddiannau (sy’n cael eu dal gan yr unigolyn neu aelodau o’r teulu).

## Mae llawer o'r gweithredoedd eiddo a ddelir gan yr Awdurdod yn enw'r hen Gynghorau o hyd ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni chofrestrwyd perchenogaeth gyda'r Gofrestrfa Tir.

47 Er ein bod wedi cael sicrwydd digonol at ddibenion archwilio, rydym wedi nodi bod gweithredoedd eiddo'r rhan fwyaf o dir ac adeiladau'r Awdurdod yn enw'r hen Gynghorau o hyd ac nad oes unrhyw weithredoedd eiddo ar gyfer Gorsaf Dân Biwmares.

48 Nid yw'r tir na'r adeiladau wedi'u cofrestru ychwaith gyda'r Gofrestrfa Tir yn y rhan fwyaf o achosion.

## Mae un mater y gwnaethom ei drafod â rheolwyr y mae angen i ni eich hysbysu amdano

49 Daethom yn ymwybodol o rai pryderon mewn perthynas â rheoli'r fflyd wen a thrafodwyd y pryderon hynny gyda rheolwyr. O ganlyniad, byddwn yn cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r fflyd wen ac yn cyflwyno adroddiad maes o law.

## Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

50 Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:

- ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol eraill yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes; ac
- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

51 Fe wnawn ni gyhoeddi adroddiad arwahân yn manylu ein hargymhellion sydd wedi codi o'n gwaith archwilio ariannol. Fe gaiff hyn ei drafod gyda swyddogion ac wedyn ei gyhoeddi i'r Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

52 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

53 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Awdurdod sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

18 Medi 2017

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2016-17

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.

Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

Mynediad llawn i'r canlynol:

- yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.

Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn ymwneud â:

- rheolwyr;
- cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
- eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.

Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Manylion yr holl bartïon cysylltiedig â'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Dyma’r penderfyniad i beidio â chywiro’r camddatganiadau yng nghyfrifon 2016/17:-

Nid yw'r £511,000 o golled ailbrisio ar hen Orsaf Dân Wrecsam wedi cael ei drin yn unol â'r Cod Ymarfer – cafodd yr eiddo ei wagio ym mis Ebrill 2016 ac yna cafodd ei farchnata i'w werthu ym mis Mai 2016. Pan gafodd yr eiddo ei wagio, daeth yn ased dros ben a chafodd yr ailbrisiad ei wneud yr adeg hon. Yna, trosglwyddwyd yr ased i'r categori Asedau a Gedwir i'w Gwerthu pan oedd yn cael ei farchnata i'w werthu. Cafwyd rhai trafodaethau am amseriad yr ailbrisiad a'r gwerth a ddefnyddiwyd. Mae'r camddatganiad na chywiriwyd yn gofnod cyfrifyddu a fyddai'n cael ei wrth-droi pan mae'r eiddo'n cael ei werthu felly ar y sail hwn penderfynwyd peidio â gwneud y diwygiad. Ystyrir nad yw'r

symiau dan sylw'n rhai arwyddocaol, a'r sefyllfa o hyd yw bod y cyfrifon yn darparu golwg wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

Nid yw stoc sy'n cael ei brisio ar £151,000 wedi cael ei gydnabod yn ased yn y Fantolen ar ddiwedd y flwyddyn - mae'r larymau mwg yn cael eu dal fel stoc dollau felly nid ydynt yn cael eu dal yn wirioneddol gan y gwasanaeth felly ni fyddent wedi cael eu cynnwys yn y broses cyfrif stoc. Yng nghyfrifon y blynyddoedd nesaf, bydd stoc tollau'n cael eu cynnwys fel ased ar y fantolen. Ystyrir nad yw'r symiau dan sylw'n rhai arwyddocol, a'r sefyllfa o hyd yw bod y cyfrifon yn darparu golwg wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

Mae Ymrwymiadau Pensiynau wedi'u tanddatgan £574,000 gan fod yr Actiwari wedi rhoi cyfrif am daliadau pensiwn yn gysylltiedig ag Ebrill 2017 yn ei amcangyfrif o'r ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2017 – mae ffigyrau IAS19 yn cael eu paratoi gan yr actiwari ar sail nifer y rhagdybiaethau ar gyfer disgwyliad oes, chwyddiant a chynnydd mewn taliadau. £289.45 miliwn oedd ymrwymiad amcangyfrifiedig cronfa bensiwn y diffoddwyr tân ar 31 Mawrth 2017. Petai'r addasiad yn cael ei wneud i'r gronfa, ni fyddai'r newid yn wahanol iawn o ystyried nifer y rhagdybiaethau a ddefnyddir fel sail i'r cyfrifiad. Ystyrir nad yw'r symiau dan sylw yn rhai arwyddocaol, a'r sefyllfa o hyd yw bod y cyfrifon y darparu golwg wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

Mae buddion taladwy a'r grant atodol sy'n dderbyniadwy yng Nghronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân wedi'u camddatgan £21,000 - nid yw'r swm yn arwyddocaol i'r Gronfa Bensiwn yn gyffredinol, a byddant yn cael eu haddasu o hyn ymlaen.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi'u trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 18 Medi 2017.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| **Mr. Ken Finch** | **Meirick Lloyd Davies** |
| **Trysorydd** | **Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad: 18 Medi 2017 | Dyddiad: 18 Medi 2017 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2017 ynghyd â'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Medi 2017

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £ Niferus | **Adroddiad Naratif**<br>• Datgelu cyfanswm gwerth y grantiau a dderbynnir yn y naratif yn gywir<br>• Ychwanegu cyfeiriadau ychwanegol i nodiadau yn y cyfrifon er mwyn hysbysu'r darllenydd<br>Cywiro gwahaniaethau crynhoi i gytuno â nodiadau ategol | Er mwyn sicrhau datgeliad cywir ac i hysbysu'r darllenydd. |
| Cyflwyniad | **Datganiadau Craidd**<br>Mae'r holl ddatganiadau craidd wedi bod yn destun i gywiriadau helaeth i sicrhau cydbwysedd y cyfrifon. | Er mwyn datgelu holl drafodion yn y datganiadau craidd yn gywir. |
| £25,000 | **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid – Addasiad Gwrthdroi Dibrisiant**<br>Gwnaed addasiad i ddibrisiant ychwanegol a nodwyd pan ail-berfformiwyd y cyfrifiad dibrisiant gan yr Awdurdod a'r dibrisiant nad oedd wedi ei gydnabod yn y blynyddoedd blaenorol. | Er mwyn datgelu dibrisiant yn llawn a chywir. |
| £1,974,000 | **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid a Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant – Gwallau Trosi**<br>Mae cywiriadau wedi eu gwneud ar gyfer ffigyrau oedd wedi cael eu cyflwyno yn anghywir yng ngwaith papur gwreiddiol yr Awdurdod. | Er mwyn datgelu gwir ffigyrau yn y dadansoddiadau. |
| £822,000 | **Y Fantolen**<br>Dosbarthwyd yr Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn anghywir fel Rhwymedigaethau Cyfredol yn hytrach nag Asedau Cyfredol, arweiniodd hyn at gyfanswm asedau a chyfanswm y cronfeydd wrth gefn i anghytuno. | Er mwyn datgelu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn gywir fel Asedau Cyfredol. |
| £ Niferus | **Nodyn 6 – Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm**<br>Gwnaed addasiadau i wariant ac incwm nad oedd wedi eu dosbarthu'n gywir yn y cyfriflyfr. | Er mwyn dosbarthu incwm a gwariant yn gywir. |
| £766,000 | **Nodyn 6 – Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm**<br>Incwm Grant wedi ei dderbyn ond heb ei gyfri yn y cyfanswm incwm yn y Cyfrifon Rheoli. | Er mwyn adnabod incwm yn y datganiadau cynradd. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £586,000 | **Nodyn 6 – Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm – Cysoni Incwm a Gwariant y Gwasanaeth a gyflwynwyd yn y Cyfrifon Rheolaeth â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant**<br>Roedd Cyfalaf Cyllid wedi ei hepgor o grynodeb 'Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr heb eu hadrodd i Reolaeth' yng nghopi drafft datganiadau'r cyfrifon. | Er mwyn datgelu pob eitem yn y grynodeb Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nad adroddwyd i'r Rheolwyr. |
| £1,532,000 | **Nodyn 6 – Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm – Cysoni Incwm a Gwariant y Gwasanaeth a gyflwynwyd yn y Cyfrifon Rheolaeth â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant – Gwallau Trosi**<br>Mae cywiriadau wedi eu gwneud ar gyfer ffigyrau oedd wedi cael eu cyflwyno yn anghywir yng ngwaith papur gwreiddiol yr Awdurdod. | Er mwyn datgelu gwir ffigyrau yn y dadansoddiad. |
| £3,642,000 | **Nodyn 7 – Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau**<br>Eithrwyd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy o'r nodyn uchod. | Er mwyn datgelu cyfraniad pensiwn y cyflogwr a dalwyd yn gywir. |
| £41,000 | **Nodyn 7 – Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau**<br>Cafwyd Addasiadau yn bennaf i wneud a Cyfrif Absenoldeb Cronedig ei hepgor o'r nodyn uchod. | Er mwyn datgelu'r addasiadau yn bennaf i wneud a Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn gywir. |
| £3,620,000 | **Nodyn 7 – Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau**<br>Mae cywiriadau wedi eu gwneud ar gyfer gwallau trosi yng nghyflwyniad yr addasiadau yn y nodyn uchod. | Er mwyn datgelu'r holl addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu o dan y Rheoliad yn gywir. |
| £400,000 | **Nodyn 9 – Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill**<br>Cafwyd y defnydd o'r Gronfa Cyfalaf a Glustnodir ei hepgor o'r cyfanswm, fe wnaeth hyn effeithio ar y Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm a Chyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | Er mwyn datgelu'r defnydd o'r gronfa cyfalaf a Glustnodir yn y flwyddyn ariannol yn gywir. |
| £501,000 | **Nodyn 12 – Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol**<br>Fe wnaeth yr Awdurdod gam-ddosbarthu ychwanegiadau asedau cyfalaf yn y flwyddyn fel asedau diriaethol yn hytrach nag asedau anniriaethol. | Er mwyn dosbarthu asedau'n gywir fel asedau anniriaethol i ateb gofynion y Côd. |
| £126,000 | **Nodyn 13 – Offerynnau Ariannol**<br>Ni ddangoswyd benthyciadau ar gostau wedi'i hamorteiddio (h.y. cost a budd cronedig) gan fod budd cronedig wedi eu cyfrifo fel credydwyr. | Er mwyn datgelu Benthyciadau yn gywir ar raddfa costau amorteiddio. |
| £2,279,000 | **Nodyn 13 – Offerynnau Ariannol – Dadansoddiad o'r Benthyciadau yn ôl adeg Aeddfedu**<br>Nid oedd dadansoddiad o'r benthyciadau yn ôl adeg aeddfedu yn adlewyrchu'r balans cywir o'r benthyciadau a oedd yn ddyledus yn y tymor byr a'r tymor hir. | Er mwyn datgelu gwerth y Benthyciadau Tymor Byr a Benthyciadau Tymor Hir yn gywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £745,000 | **Nodyn 16 – Dyledwyr ac Incwm Grant**<br>Nid oedd Grantiau Refeniw a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cyfrif fel dyledwyr, felly roedd y dyledwyr wedi cael eu tan ddatgan. | Er mwyn datgelu gwerth Grantiau Refeniw a dderbyniwyd yn y flwyddyn yn gywir. |
| £618,000 | **Nodyn 18 – Credydwyr a Gwariant Grant**<br>Ni wnaeth gwariant grant a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gael ei gyfrif fel credydwr, felly roedd y credydwyr wedi cael eu tan ddatgan. | Er mwyn datgelu gwerth Gwariant Grant a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn gywir. |
| £161,000 | **Nodyn 20 – Cronfeydd Defnyddiadwy – Cronfeydd Cyffredinol**<br>Gwnaed addasiad i gydnabod incwm grant a ddaliwyd yn flaenorol mewn cyfrifon cadw na chyfrifwyd amdanynt o dan refeniw. | Er mwyn sicrhau bod holl incwm grant wedi ei gyfrif yn refeniw. |
| £34,000 | **Nodyn 20 – Cronfeydd Defnyddiadwy – Cronfeydd Grantiau**<br>Gwnaed addasiad i adlewyrchu'r balans cywir o grantiau sy'n ddyledus i'w cynnwys yn y gronfa grantiau | Er mwyn sicrhau fod y Gronfa Grant wedi cael ei nodi'n gywir. |
| £2,160,000 | **Nodyn 21 – Cronfeydd Annefnyddiadwy – Cronfa Ailbrisio**<br>Gwnaed addasiad i adlewyrchu triniaeth cyfrifo gywir a phriodol yn y Cronfeydd Ailbrisio a Chyfrifon Addasiad Cyfalaf. Mae'r addasiadau hefyd yn effeithio ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | Er mwyn sicrhau bod triniaeth cyfrifo cywir a phriodol wedi ei fabwysiadu yn y Cronfeydd Ailbrisio a Chyfrifon Addasiad Cyfalaf. |
| £ Niferus | **Nodyn 22 – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu**<br>Gwnaed ail-ddatganiadau helaeth i adlewyrch nifer o addasiadau cyfrifyddu i ddatgeliadau yn y Llif Arian Parod - Gweithgareddau Gweithredu. | Er mwyn datgelu'n gywir Llif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu. |
| £990,000 | **Nodyn 22 – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu – Gwallau Trosi**<br>Mae cywiriadau wedi'w wneud ar gyfer ffigyrau oedd wedi cael eu cyflwyno yn anghywir yng ngwaith papur gwreiddiol yr Awdurdod. | Er mwyn datgelu'n gywir Llif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu. |
| £1,000,000 | **Nodyn 23 – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi**<br>Mae addasiadau wedi eu gwneud yn y Llif Arian i Brynu Eiddo, Offer a Chyfarpar o fewn Gweithgareddau Buddsoddi i ddatgelu'r holl ychwanegiadau a ddigwyddodd yn y flwyddyn ariannol, dylai hyn wedi bod yn £2,942,000 nid £1,942,000. | Er mwyn datgelu Llif Arian Parod Net o Weithgareddau Buddsoddi yn gywir. |
| £ Niferus | **Nodyn 26 – Lwfans Aelodau**<br>Mae addasiadau wedi'u wneud er mwyn datgelu lwfansau aelodau yn llawn sy'n ymwneud â 2016-17 a threuliau a derbyniwyd yn gywir. | Er mwyn datgelu cyfanswm lwfans aelodau a threuliau yn gywir. |
| £6,072 | **Nodyn 27 – Taliadau Swyddogion**<br>Gwnaed addasiadau i bensiwn ychwanegol Uwch Swyddogion sy'n aelodau o'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y dosraniad anghywir a gafwyd eu cyfrifo o'r cyfandaliad sy'n daliadwy i gronfa pensiwn yn seiliedig ar ganran o'r cyfanswm cyflog pensiynadwy. | Er mwyn datgelu'r cyfanswm cyfraniadau pensiwn gan yr Uwch Swyddogion yn gywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | Mae naratif ychwanegol wedi'w gynnwys hefyd er mwyn egluro cyfraniad pensiwn llawn yr Uwch Swyddogion ar gyfer dealltwriaeth y darllenydd. | |
| £1,809 | **Nodyn 27 – Taliadau Swyddogion**<br>Mae angen cynnwys y Swyddog Adran S151 yn nhabl cydnabyddiaeth y swyddogion. | Er mwyn datgelu'r holl Uwch Swyddogion yn gywir ac yn unol â gofynion y Côd. |
| £ Niferus | **Nodyn 27 – Taliadau Swyddogion – Pecynnau Ymadael**<br>Dyw pecynnau ymadael heb gael eu datgelu mewn bandiau fel gofynion y Côd. Datgeliad wedi ei diweddaru i gynnwys bandio ar gyfer cyfanswm cost pecynnau ymadael. | Er mwyn datgelu pecynnau ymadael mewn bandiau yn unol â gofynion Côd yn gywir. |
| Amryw o newidiadau naratif | **Nodyn 27 – Taliadau Swyddogion**<br>Naratif ychwanegol wedi ei ychwanegu i ddarparu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â datgeliadau cydnabyddiaeth uwch swyddogion. | Er mwyn rhoi digon o wybodaeth i'r darllenydd sy'n cwrdd â gofynion y Côd. |
| £162,000 | **Nodyn 29 – Grantiau**<br>Roedd incwm Grant a gwariant cysylltiedig wedi ei dan ddatgan oherwydd yr ymarfer grosio fyny trafodion grant yn anghywir. | Er mwyn datgelu'n gywir gwerth Grant Refeniw a gwariant cysylltiedig oedd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol. |
| £21,013 | **Nodyn 33 – Buddion Terfynu**<br>Cydymffurfiwyd buddion terfynu trwy eithrio costau straen pensiwn cynnar a thaliadau a wnaed yn lle rhybudd.<br>Datgeliad wedi ei diweddaru i adlewyrchu cyfanswm budd-daliadau terfynu. | Er mwyn cynnwys taliadau a wnaed yn lle rhybudd yn gywir yn unol â gofynion y Côd. |
| £164,000 | **Nodyn 34 – Trafodion sy'n ymwneud â Buddion Ôl-Gyflogaeth**<br>Fe wnaeth cyn costau gwasanaeth a threuliau gweinyddol ar gyfer balansau oedd wedi eu hariannu a doedd heb eu hariannu o Adroddiad yr Actwari wedi eu hepgor o'r papurau gwaith gwreiddiol a ddarparwyd gan yr Awdurdod. | Er mwyn datgelu holl ffigyrau'r Adroddiad Actwari yn y nodiadau ategol yn gywir. |
| £391,000 | **Nodyn 34 – Trafodion sy'n ymwneud â Buddion Ôl-Gyflogaeth – Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn**<br>Roedd ffigwr cyfraniadau cyflogwyr wedi ei addasu i gynnwys cyfraniadau pensiwn. | Er mwyn datgelu cyfanswm cyfraniadau y cyflogwr i'r gronfa gyffredinol yn gywir. |
| £1,234,000 | **Nodyn 34 – Trafodion sy'n ymwneud â buddion ôl gyflogaeth – IAS 19 Addasiadau Pensiwn i gostau Net y Gwasanaeth**<br>Cafwyd yr Addasiad Actiwarïaid o'r Adroddiad Actwari ei hepgor o'r nodyn ategol. | Er mwyn datgelu holl ffigyrau'r Adroddiad Actwari yn y nodiadau ategol yn gywir. |
| £168,000 | **Nodyn 34 – Trafodion sy'n ymwneud â buddion ôl gyflogaeth – IAS 19 Addasiadau Pensiwn i gost Net y Gwasanaeth** | Er mwyn datgelu holl ffigyrau yr Adroddiad Actwari yn y nodiadau ategol yn gywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | Roedd ffigyrau ‘Trosglwyddo Gwerthoedd Mewn’ yr Adroddiad Actwari wedi eu hepgor o’r nodyn ategol. | |
| Nodyn Datgelu | **Nodyn 36 – Asedau Amodol**<br>Mae nodyn datgelu ychwanegol wedi’i gynnwys yn y datganiadau ariannol ar asedau amodol yr Awdurdod i gydymffurfio â’r Côd Ymarfer. | Er mwyn datgelu asedau amodol yn gywir i fodloni gofynion y Côd. |
| £1,435,000 | **Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**<br>Nid oedd y cyfrif yn cynnwys cyfanswm y Grant atodol sy’n cael ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru | Er mwyn cynnwys cyfanswm y Grant atodol a dderbyniwyd yn gywir. |
| £553,000 | **Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân - 2015/16 Cymharydd**<br>Gwrthdroi credydwr diwedd y flwyddyn a oedd wedi ei gyfrifo yn anghywir a’r gostyngiad cysylltiedig yn nyledwyr ar gyfer y grant ychwanegol. | I gyfrifo am fudd-daliadau sy’n daladwy yn y flwyddyn gywir. |
| £574,000 | **Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**<br>Addasiad i gydnabod bod y budd-daliadau sy’n daladwy ar gyfer Ebrill 2017 wedi’u paratoi ar 31ain Mawrth 2017. | I gyfrifo am fudd-daliadau sy’n daladwy yn y flwyddyn gywir. |
| Newidiadau amrywiol, cywiriadau cyflwyniad a naratif ychwanegol | Bu mân newidiadau sylweddol, cywiriadau cyflwyniad a naratif ychwanegol i’r datganiadau ariannol a’r nodiadau. | Er mwyn sicrhau datgeliad a chyflwyniad manwl gywir ac i hysbysu’r darllenydd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

DRAFT